OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 2726 (Cy.261)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Cynllun Grantiau Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) (Amrywio) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *23 Hydref 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Hydref 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 1 o Ddeddf Tir Ffermio a Datblygu Gwledig 1988(**1**) ac adrannau 28 a 29 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**2**) yn gwneud y cynllun canlynol:

### Enw, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Grantiau Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) (Amrywio) 2003, mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 31 Hydref 2003.

### Diwygio Cynllun Grant Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) 2001

**2.**—(1) Diwygir Cynllun Grant Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) 2001(**3**) fel a ganlyn.

(2) Rhoddir, yn lle'r diffiniad o "banc" ym mharagraff 2, y diffiniad canlynol —

"ystyr "banc" ("*bank*") yw —

(i) person a chanddo ganiatâd o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000(**4**)) i dderbyn adneuon,

(ii) cwmni'r Ardal Economaidd Ewrop o'r math a grybwyllwyd ym mharagraff 5(b) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno a chanddo ganiatâd o dan baragraff 15 o'r Atodlen honno (o ganlyniad i gymhwyso ar gyfer awdurdodi o dan baragraff 12 o'r Atodlen honno) i dderbyn adneuon,

(iii) y banc Cynilion Cenedlaethol,

(**1**) 1988 p.16. Trosglwyddwyd pob swyddogaeth unrhyw Weinidog y Goron o dan y Ddeddf hon, i'r graddau eu bod yn arferadwy mewn cysylltiad â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**2**) 1970 p.40; diffinnir "the appropriate authority" a "the appropriate Minister" yn adran 28(1). Trosglwyddwyd pob swyddogaeth unrhyw Weinidog y Goron o dan adrannau 28 a 29, i'r graddau eu bod yn arferadwy mewn cysylltiad â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 2001/643 (Cy.32).

(**4**) 2000 p.8.

(iv) banc bwrdeistrefol, sef cwmni a oedd, yn union cyn diddymu Deddf Bancio 1987(**5**) wedi ei eithrio o'r gwaharddiad yn adran 3 o'r Ddeddf honno yn rhinwedd adran 4(1) o'r Ddeddf honno a pharagraff 4 o Atodlen 2 iddi, neu

(v) undeb gredyd o fewn cwmpas yr ystyr yn Neddf Undebau Credyd 1979(**6**).”

(3) Mewnosodir y paragraff isod ar ôl is-baragraff (1) o baragraff 2.

“(1A) Rhaid i ddiffiniad “banc” (“*bank*”) yn is-baragraff (1) gael ei ddarllen gydag —

(a) adran 22 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000;

(b) unrhyw orchymyn perthnasol a wnaed o dan yr adran honno; ac

(c) Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**)

*D. Elis-Thomas*

23 Hydref 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1987 p.22.
(**6**) 1979 p.34.
(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn diwygio Cynllun Grantiau Ailstrwythuro'r Diwydiant Moch (Cymru) 2001.

Mae'r diwygiadau a wneir yn ymwneud â diffinio banc ac maent yn dod yn sgil Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.